1 Gorffennaf 2020

Annwyl Gynghorydd Thomas,

Ysgrifennwn atoch yn ymwneud ag amnewid cerflun Syr Thomas Picton yn Neuadd y Ddinas. Dymunwn gynnig ateb wedi ei arwain gan y gymuned sydd yn dathlu bywyd Louisa Calderon yn lle hynny.

Rydym, yn ddiamau, mewn cyfnod tyngedfennol; mae digwyddiadau ar draws y byd wedi bod yn gyfle i ailasesu cysylltiadau hiliol yn ein cymunedau a mynd i'r afael â gorffennol trefedigaethol y Deyrnas Unedig. Wrth i gerfluniau masnachwyr caethwaesion barhau i gael eu tynnu i lawr ar draws y byd, mae'n anochel yn cyflwyno'r cwestiwn beth ddylid ei wneud â'r plinthau gwag y mae'r cerfluniau hyn yn eu gadael ar ôl a sut dylid mynd i'r afael â'u hanes. Mae'r rhain yn gwestiynau y dylai'r cymunedau lle mae'r cerfluniau hyn wedi bod yn sefyll eu hateb. Yn wir, yn achos cerflun Picton, dylai trigolion Caerdydd gael llais.

Rydym yn cynnig amnewid cerflun Picton â gwaith celf o Louisa Calderon, ei ddioddefwr enwocaf sydd, tan nawr, heb gael cyfiawnder am droseddau Picton yn ei herbyn.

Cafodd Louisa, oedd yn ferch 'Mylato' 14 oed, ar ôl cael ei chyhuddo o gynorthwyo dyn arall mewn lladrad tŷ, ei harteithio, a'i chadw mewn cadwynau am 8 mis. Cyn hyn, roedd wedi cael ei chadw fel 'meistres' gan berchennog gwyn caethwaesion ers yn 11 oed. Mae natur waedlyd ei hartaith wedi cael ei gofnodi'n sylweddol mewn llenyddiaeth. Cafodd yr artaith ei gymeradwyo gan Picton, oedd ar y pryd yn llywodraethwr Trinidad, ar gais un o ymsefydlwyr mwyaf dylanwadol yr ynys, Begorrat. Cafodd Picton, y cyntaf i gael ei roi ar brawf am gamymddwyn wrth ymarfer ei ddyletswyddau swyddogol mewn gwasanaeth tramor, ei gael yn euog ond ni chafodd ei ddedfrydu, a chafwyd ef yn ddieuog yn nes ymlaen.

Teithiodd Louisa i'r DU a siaradodd yn y llys. Er gwaethaf ei natur heriol a'i dewrder, ni chafodd gyfiawnder a diflannodd i ddinodedd hanesyddol. Mae'n amser gwneud yn iawn am hyn.

Dylai cerfluniau sy'n cael eu harddangos yn gyhoeddus o leiaf adlewyrchu delfrydau cymdeithas. Rydym yn credu mewn Cymru sydd yn gwneud yn iawn am y gorffennol, sy'n

diogelu plant rhag cam-drin rhywiol a niwed, ac sy'n teimlo gymaint â ni dros Louisa Calderon. Dylai ein cofebau adlewyrchu hyn.

Yn hyn o beth, credwn y dylai'r camau mwyaf priodol ddechrau gyda'r gymuned yn cymryd rhan weithredol yn y drafodaeth hon. Credwn mai disodli cerflun Picton gydag un Louisa Calderon fyddai'r cam gorau i'r gymuned. Mae'n ddatganiad o fwriad ac ymrwymiad i fynd i'r afael yn gyhoeddus â hanes trefedigaethol Cymru a'r DU. Mae hefyd yn ddatganiad o ddewrder a phenderfynoldeb ar ran y cyngor i gynnal y gwerthoedd y mae ein cymdeithas yn sefyll amdanynt heddiw. Ni fydd y rheiny sydd wedi cael eu herlid a'u tawelu yn y gorffennol yn cael eu tawelu bellach. I'r gwrthwyneb, gadewch i'r cyngor ddangos ei barodrwydd i arwain, gan ddod â chamweddau hanesyddol a phresennol i'r amlwg a dangos y ffordd ymlaen tuag at ddyfodol mwy cyfartal a chyfiawn.

Gobeithio bydd ein cynnig yn dderbyniol i chi.

Llofnodwyd:

1. Takura Aldridge
2. Fadhili Maghiya
3. Raphael Esu
4. Umalkhaire Goran
5. Daouda Conte
6. Sarah Younan.
7. Claire O'Shea
8. Aileen Burmeister
9. Basma Kamel
10. Wanitta Adzangoa
11. Natalie Jones
12. Frank Kamau
13. Abu-Bakr Madden
14. Liz Small
15. Dr Donald Mlewa
16. Zazi Chris Campbell
17. Vanessa Fada
18. O'Molemo Thamae
19. Sara Ibrahim
20. Emertha Uwanyirigira
21. Justina John
22. Justina Eghosa Aimufua
23. Sibani Roy
24. Donald Mutale
25. Carol Adams
26. Fanta Bamba
27. Uzo Iwobi OBE
28. Simba Chibarika
29. Jill Duarte
30. Beth Kid
31. Peter Gilbey
32. Cat Jones
33. Emina Redzepovic
34. Hannah Sheppard
35. Jennifer Farnell
36. Hoda Al Shaibani
37. Cath Mulogo
38. Amy Saunders
39. Taya Ford
40. Emma Westcott
41. Eden-Mae Davies
42. Kelsey Gauchi
43. Vicky Ford
44. Amelia May Welsh
45. Lloyd James
46. Ciara Ford
47. Aimee Lewis
48. Alice Willis
49. Dattyl Wilson
50. Shellwy Davies
51. Gemma Treharne-Foose
52. Joseph Baxter
53. Olivia Brooks
54. Alexandeer Szekely
55. Lowri Williams
56. Lauren James
57. Sue Mclucas
58. Jayne Boucher
59. Philip Westcott
60. Donna Jones
61. Wendy Lewis
62. Bhavna Patel
63. Andrew Ogun
64. Andrew Ogun
65. Wanitta Adzangoa
66. Bassmala Elbushary
67. Izzy McLeod
68. Hoda Alshaibani
69. Lucemo mlewa
70. Hoda Alshaibani
71. Jake Griffiths
72. Ellie Walker
73. Tamunodokubo Joshua Whyte
74. Pafue Christy Nganjimi
75. Shoruk Nekeb
76. Jameelah Williams-Baffoe
77. Farhan Khawaja
78. Nicole Ready
79. Kamala Suliman Bakheit
80. Lucas Bikram
81. Chloe Giles